

Richard Lloyd Williams

parhad o dudalen 7

garchar Pentonville. Cynlluniodd hefyd ambell orsaf heddlu. Un o'r swyddi mwyaf annymunol a gafodd oedd gwneud cynlluniau ar gyfer y trengholiad yn dilyn y ddamwain reilffordd erchyll ger Abergele pan lithrodd cerbydau rhydd, rhai yn cludo paraffin, yn erbyn trêrn yn cludo'r post i Iwerddon yn 1886 gan ladd 33, roedd y tân mor enbyd fel y methwyd adnabod rhai cyrff.

Bu'n aelod o bwyllgor Eisteddfod Genedlaethol Dinbych, 1882 ac ef gynlluniodd y pafiliwn. Erbyn diwedd y ganrif roedd y practis yn cynhyrchu gwaith oedd bellach yn hen ffaswn.

Yn Ninbych ceir y casgliad mwyaf o'u hadeiladau gan gynnwys y *Constitutional Club*, siop *Travel Sport* a Banc HSBC a darnau o'r Ysbyty'r Meddwl (bellach wedi cau) ac Ysgol Fron Goch (y Llys Ynadon heddiw). Ef hefyd oedd yn gyfrifol am orsaf rheilffordd Dinbych, (wedi'i chwalu) pencadlys Cwmni Rheilffordd Dyffryn Clwyd, adeilad fyddai bellach wedi'i gofrestru fel adeilad o ddiddordeb hanesyddol.

Môr-Leidr ym Môn


parhad o dudalen 18

unwaith eto at ei thad yn gofyn am gymorth ariannol. Roedd hwn yn llythyr tristach na'r rhelyw, oherwydd edrydd ynddo am farwolaeth ei hunig fab.

Yn y cyfamser, oherwydd dylanwad y Ffrancwyr, gwaharddwyd Fortunatus rhag glanio mwyach yn Leghorn a chan fod pob porthladd arall bron ym Môn y Canoldir yn elyniaethus i Brydain, gwrthodwyd caniatad i'r preifateiddiwr lano gyda dwy long fawr a enillasai, sef yr *Immaculate Conception* a'r *Ezperanza* a bu'n rhaid iddo eu gadael yn Porto Ferrajo. Anfonwyd nifer o longau rhyfel Ffrainc i geisio ei ddal ond i ddim pwrpas a dal i fygwth a bygylu'r gelyn a wnâi Fortunatus.

Y môr ei hun a'i cafodd yn y diwedd. Mewn storm enbyd heb fod nepl o Ynys Malta, suddodd ei long gan gollir capten a'r criw i gyd ac ni welodd Fortunatus Wright borthladd daearol byth oddi ar hynny. Beth wnawn ni ohono tybed? Gambliwr, dihiryn, oferwr, y gŵr salaf a mwyaf esgeulus a gafodd gwraig erioed, merchetwr ac yfwr gwin - galwech ef yr hyn a fynnwch. Hyn sydd sicr - yr oedd ymysg y dewraf o blant dynion ac yn wladwr efn. Dywed yr arysgrif

The
VILLAGE CHURCHES.
of
DENBIGHSHIRE



BY
LOYD-WILLIAMS & UNDERWOOD
ASSOCIATES R.I.B.A.
DENBIGH.

Published by the Authors at Denbigh.
Printed by A. Macgregor (Late Macnee Macdonald & Macgregor) 10, Fensick St., Liverpool.

Wynneb-ddalen, 'The Village Churches of Denbighshire'

ychwanegol ar garreg fedd ei dad amdano - *Also his son, Fortunatus Wright, who was always victorious and humane to the vanquished. He was a constant terror to the enemies to his King and country.*

Beth ddaeth tybed o Mary Wright ar ôl marwolaeth ei gŵr?

Yn 1758 hwyliodd Mary Wright o Leghorn i ddychwelyd i Frynndu am y tro olaf. Ond fel pe bai heb gael digon o anlwc yn ei bywyd yn barod, aeth y llong yn ddrylliau ar arfordir Cernyw. Daeth hi i'r lan yn ddiogel, ond colodd ei heiddo i gyd i wanc y môr, ac ym Mhencance y bu am y tri mis nesaf yn wael ei hiechyd, yn isel ei hysbryd ac mewn dygn dlodi. Bu'n rhaid i'r ysgweiar anfon arian iddi ac yr oedd hynny yn fusnes costus iawn yn yr oes honno. O'r diwedd, yn Hydref 1759, adferodd ei hiechyd yn ddigon da iddi gychwyn adref. Cymryd un goits i Lundain ac un arall i Gaer. Ebe'r dyddiadur, *I sent the schoolmaster of this place (Llanfechell), today to Chester to bring home my daughter, who I expect to be here tomorrow night, and send with him £1.6s to bear her and his expenses home, having already sent her £160 since she returned to England in November last, besides the great sums I paid for sending the money.* Hwn gyda llaw, yw'r cyfeiriad olaf at ei ferch sydd yn y dyddiadur.

Cost enfawr fu ei ferch i'r sgweiar ar hyd ei oes ac er nad

oedd ef ei hun ymysg yr ysgweiriaid cyfothocaf, fe lwyddodd, rhywsut neu'i gilydd i'w chynnal hi a'i theulu ar hyd eu hoes. Pan fu farw'r hen sgweiar yn 1760, dywed ei lythyr cymun mai ei chwaer Catherine Buckley ac nid ei ferch oedd i oruchwyllo'r stad ac i weinyddu manylion yr ewyllys. Gwnaeth hi hefyd yn rhyw fath o ymddiriedolwraig i sicrhau fod ei wyresau yn cael eu dwyn i fyny yn briodol, yn ôl staws bonedd. Trefnodd i flwydd-dal (*annuity*) gael ei dalu i Mary am weddill ei hoes; a'r tebygrwyd yw i'r ferch anghyfrifol naif hon gael diwedd oes dipyn difyrach nag a gafodd yn ystod ei bywyd gyda Fortunatus.

Ar Werth

1. *Y Seren Foreu neu Canwyll y Cymry*. Rhys Prichard, 1858. (y dudalen flaen yn eisiau)
2. *Correspondence and minutes of the SPCK*. ed. Mary Clement. 1952. (nodiadau yn llaw'r golygydd)
3. *The Old and New Testament connected in the History of the Jews* by Humphrey Prideaux. 1718. (y clawr cefn yn eisiau)
4. *Y Psallwyr neu Psalmai Dafydd*, wedi eu nodi megis ag y maent i'w canu neu i'w dywedyd mewn eglwysydd. Rhydychen. 1854.
5. Rhestr o lyfrau argraffedig yng Nghaerfyrddin gan John Ross rhwng 1763 a 1807, a gasglwyd gan John Davies, Caerfyrddin, 1916. (y tudalennau heb eu torri)
6. *The Carmarthen Antiquary*. Vol 1, pts 1-4, 1941-44. Vol 2, pts 1-3, 1945-1951.
7. *Welsh Country Characters*. D. Parry Jones. 1952.
8. *The Rent that's Due to Love*; a selection of Welsh poems trans. by Gwyn Williams. 1950.
9. *Dros ein Gwlad*. Cerddi Heddwch. T. E. Nicholas. 1920 (llofnod yr awdur)
10. *A Challenge to Wales*. W. Hughes Jones. Elidir Sais. 1938.
11. *A Memoir of Chirk Castle*. 1923.
12. *Dinas Marwddwy a'i hamgylchedd*. Thomas Davies (Tegwyn). Machynlleth. 1898.
13. *Newmarket, ei hynafiaethau, cofiannau a'i hanes personol*. R. T. Williams (Trebor Môn). Y Bala. 1921.
14. *Morwyr Cymru*. David Griffith, Felinheli. Caernarfon. 1866.
15. *Anturiaethau Cymro yn Affrica*. William Griffith. Caernarfon. 1894.
16. *Dirgelwch yr aniatwch ac ystraeon eraill*. E. Morgan Humphreys. Caernarfon 1911 (llofnod Deiniol Fychan).

Cysyllter â Mari Ellis.
Ffôn: (01970) 617171.

SIOP LYFRAU'R HEN BOST

45 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog
Ffôn: (01766) 831802

Byddwn yn yr Eisteddfod
yn Ninbych

Edrychwn ymlaen at groesawu
cyfeillion hen a newydd